Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1340 (Cy. 297)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng (Newid Amserau Sesiynau Ysgolion) 2020

## NODYN ESBONIADOL

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn*)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 2 o Ddeddf Addysg 2002. Mae erthygl 2 yn darparu nad yw rheoliad 4(2), (3) a (4) o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn gymwys i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng. Bydd hyn yn caniatáu i'r corff llywodraethu wneud newidiadau i ba bryd y mae sesiynau'r ysgol yn dechrau ac yn dod i ben, gan gynnwys pa bryd y mae'r diwrnod ysgol yn dechrau ac yn dod i ben, o 1 Ionawr 2021 ymlaen, yn hytrach nag ar ddechrau tymor ysgol neu flwyddyn ysgol. Mae erthygl 3 yn pennu bod y Gorchymyn yn cael effaith tan 31 Awst 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1340 (Cy. 297)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng (Newid Amserau Sesiynau Ysgolion) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Tachwedd 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *25 Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2021* |

Yn unol ag adran 4(2) o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ("y Ddeddf"), mae corff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng ("y corff llywodraethu") wedi ymgynghori â'r awdurdod lleol a'r personau hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol, gan gynnwys rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol a'r staff sy'n gweithio yn yr ysgol;

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, ar ôl rhoi sylw i'r materion a nodir yn adran 1(2) o'r Ddeddf, y gall gweithredu gan y corff llywodraethu ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn gyfrannu at godi'r safonau addysgol a gyrhaeddir gan blant yng Nghymru;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 2(1) o'r Ddeddf(**2**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, ar gais y corff llywodraethu, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 2002 p. 32. Mae adran 4(2) wedi ei diwygio gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 p. 40, Atodlen 16(1), paragraff 3(4)(a) a Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) O.S. 2010/1158, Atodlen 2(1), paragraff 11(2).

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adrannau 1 i 5 yng Ngweinidogion Cymru gan baragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng (Newid Amserau Sesiynau Ysgolion) 2020 a daw i rym ar 1 Ionawr 2021.

**Esemptiad o'r Rheoliadau Sesiynau Ysgolion**

**2.** Nid yw rheoliad 4(2), (3) a (4) o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009(**1**) yn gymwys i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng(**2**) ar Ffordd Gungrog, y Trallwng, Powys, SY21 7EJ.

**Y cyfnod amser**

**3.** Bydd y Gorchymyn hwn yn cael effaith tan 31 Awst 2021.

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
24 Tachwedd 2020

(**1**) O.S. 2009/572 (Cy. 54).
(**2**) Rhif Cyfeirnod Unigryw'r Ysgol: 402408.